## Sefydliadau a all eich helpu:

**Eich gweithiwr cymdeithasol neu ofalwr maeth (os oes gennych un)**

**Cyngor Ffoaduriaid Cymru**
welshrefugeecouncil.org.uk
029 20489 800

**TGP Cymru**
www.trosgynnal.org.uk
029 2039 6974

**Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)**
eyst.org.uk
01792 466980/1

**Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol**
www.nyas.net/services/our-services-in-wales
0808 808 1001


**Dinas Noddfa Caerdydd**
cardiff.cityofsanctuary.org
029 2048 2478

**Dinas Noddfa Abertawe**
swansea.cityofsanctuary.org
07496 172895

**Comisiynydd Plant Cymru**
www.childcomwales.org.uk
0808 801 1000

**Asylum Justice**
asylumjustice.org.uk 029 2049 9421

***Cofiwch fod yr heddlu yng Nghymru yma i'ch helpu. Peidiwch â bod ofn cysylltu â hwy. Os yw'n argyfwng, ffoniwch 999. Fel arall, gallwch ffonio 101 i siarad â'r heddlu.***



## Taflenni ffeithiau eraill yn y gyfres hon:

- **Plant yn Gyntaf – Arweiniad i Hawliau a Hawliadau ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches**
- **Plant yn Gyntaf – Arweiniad i Gael Gofal ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches**

Cewch ragor o wybodaeth am hawliau plant a'r gyfraith fel mae'n effeithio ar blant yng Nghymru ar Wefan Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru **www.childrenslegalcentre.wales**

childrenslegalcentre@swansea.ac.uk
01792 295399
@ChildLegalWales

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Hillary Rodham Clinton School of Law | Ysgol y Gyfraith

Llywodraeth Cymru
Welsh Government





# Plant yn gyntaf

## Arweiniad i Wneud Cais i Aros yng Nghymru gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

Gwybodaeth am wneud cais am loches ac aros yng Nghymru heb eich teulu os ydych chi o dan 18 oed

Mae hwn yn un o dri chanllaw i'ch helpu. Dylech ddarllen pob un o'r tri.

Canolfan Gyfreithiol y Plant
Children's Legal Centre

# Mae Cymru'n rhan o'r DU. Bydd eich hawl i aros yng Nghymru'n dibynnu ar reolau mewnfudo'r DU.

## Fy hawliau trwy'r prosesau Mewnfudo ac Asesiad Oedran

Os ydych o dan 18, cewch eich trin 'fel plentyn', ac yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn golygu:

- Y dylai penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar eich rhan gan oedolion fod er eich 'lles gorau' bob amser
- Y dylai eich barn cael ei chlywed a'i hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud
- Y dylai eich iaith, eich diwylliant a'ch crefydd gael eu parchu
- Y dylech gael eich cadw'n ddiogel rhag niwed
- Na ddylech gael eich cadw'n gaeth

Os bydd **swyddogion mewnfudo** neu'r **awdurdod lleol**, neu'r **cyngor** fel mae'n cael ei alw weithiau, yn credu eich bod yn edrych yn llawer hŷn na 17 oed, efallai y byddwch yn cael 'asesiad oedran'.

Mae penderfyniad sydd 'er eich lles gorau' yn benderfyniad a wneir gan oedolion sy'n ystyried eich holl amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys eich barn chi. Efallai nad dyna'r penderfyniad y byddwch yn ei ddymuno bob amser.

## Gwneud cais i aros yn y DU

Gallwch **hawlio lloches** yn y DU os ydych chi wedi gadael eich gwlad eich hun am eich bod yn cael eich trin yn annheg neu'n greulon am reswm sy'n cynnwys eich hil, eich crefydd, eich cenedligrwydd, am eich bod yn perthyn i grŵp cymdeithasol penodol neu am eich bod yn arddel barn wleidyddol (neu am eich bod yn ofni y byddwch yn cael eich trin yn annheg neu'n greulon am un o'r rhesymau hyn). Gall 'grŵp cymdeithasol penodol' gynnwys milwyr sy'n blant neu blant wedi'u masnachu.

- Bydd angen i chi wneud **eich cais am loches** cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gyrraedd y DU. Efallai y bydd yn rhaid i chi drefnu apwyntiad gyda Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI), sef gwasanaeth mewnfudo'r DU, i wneud hyn – gall eich gweithiwr cymdeithasol eich helpu â hyn.
- Bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch i'ch helpu â'ch cais. Dylai eich **awdurdod lleol** (y sefydliad a fydd yn edrych ar eich ôl lle byddwch yn byw yng Nghymru) wneud yn siŵr eich bod yn cael y cyngor hwn.
- Dylai cyfieithydd fod ar gael, os bydd angen un arnoch, ar gyfer unrhyw gyfweliadau y byddwch yn eu cael fel y byddwch yn deall beth sy'n digwydd ac i wneud yn siŵr eu bod hwythau'n eich deall chi.
- Os bydd eich cais am loches yn llwyddiannus, byddwch yn cael statws **ffoadur** a gallwch aros yn y DU. Ar ôl 5 mlynedd, bydd hyn yn cael ei adolygu. Gallwch wneud cais am **ganiatâd amhenodol i aros** yn y DU ar yr adeg hon.
- Os bydd eich cais am loches yn aflwyddiannus efallai y cewch '**ddiogelwch dyngarol**'. Fel arfer gallwch aros yn y DU am hyd at **5 mlynedd**. Gallwch wedyn wneud cais am **ganiatâd amhenodol i aros** yn y DU.
- Mewn rhai amgylchiadau, os daethoch i'r DU o rywle arall yn yr UE o dan a.67 y Ddeddf Mewnfudo ac nad ydych wedi cael lloches, gallech gael **caniatâd a.67** sy'n golygu y cewch aros yn y DU am 5 mlynedd, cael cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y cyfnod



hwnnw. Ar ôl 5 mlynedd cewch wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros yn y DU ond does dim sicrwydd y byddwch yn cael y caniatâd hwnnw.

- Os na chewch loches na diogelwch dyngarol, na chaniatâd a.67, cewch **ganiatâd Ceisiwr Lloches ar ei Ben ei Hun (UASC) i aros**. Fel arfer cewch aros yng Nghymru / y DU am **30 mis** neu nes byddwch yn **17.5 oed**. Gallwch wneud cais i ymestyn hyn, os hoffech aros yn hwy yn y DU.

Os nad ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad a wneir ar eich cais, gallwch apelio. Cewch Gymorth Cyfreithiol i dalu am unrhyw gyngor cyfreithiol sydd ei angen arnoch am eich statws mewnfudo.

## Os na chewch aros yn y DU

Gall y broses o wneud cais am loches gymryd peth amser, ac efallai y cewch wybod na chewch aros yn y DU. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ystyried ei rheolau ei hun ynghylch dychwelyd pobl i wledydd y mae'n eu hystyried yn anniogel. Gall eich cyfreithiwr roi cyngor i chi. Os oes raid i chi ddychwelyd adref, bydd Llywodraeth y DU yn gwneud trefniadau teithio i chi.

## Gwneud cais i aros yn hwy

Os byddwch chi eisiau gwneud cais am **ganiatâd amhenodol i aros** yn y DU, NEU os hoffech estyn eich caniatâd UASC, rhaid i chi wneud eich cais **cyn** i'ch caniatâd presennol ddod i ben.

## Fy nheulu

- Hyd yn oed os rhoddir statws ffoadur i chi, a'ch bod yn cael aros yn y DU, ni chewch wneud cais i frodyr a chwiorydd na rhieni i ymuno â chi.
- Os ydych chi wedi dod i Gymru ond bod eich rhieni yn un o wledydd eraill yr UE, gall yr awdurdodau benderfynu ei fod er eich lles gorau i chi ailymuno a'ch teulu yn y wlad arall honno.

## Asesiad oedran

Os yw'r awdurdodau yn credu eich bod yn edrych yn hŷn (neu'n iau) na'r oed rydych yn ei honni, efallai y bydd yn rhaid i chi gael **asesiad oedran**.

Gofynnir llawer o gwestiynau i chi – gall rhai fod yn gwestiynau personol a chewch eich holi am lawer o bethau er mwyn pennu eich oedran. Gallwch ofyn i oedolyn rydych yn ymddiried ynddo fod gyda chi trwy gydol y broses hon i wneud yn siŵr bod eich hawliau'n cael eu parchu. Gofynnir i chi hefyd a oes gennych chi unrhyw ddogfennau sy'n cadarnhau pwy ydych chi a'ch oedran.

Dylech gael eich trin fel plentyn nes bydd y penderfyniad ynglŷn â'ch oedran wedi'i wneud.

- Os penderfynir eich bod o dan 18 oed, byddwch yn dal i gael eich trin fel plentyn.
- Os penderfynir eich bod yn 18 oed neu hŷn, byddwch yn cael eich trin fel oedolyn a defnyddir system loches arall.